Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

01/07

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Marc Wyn Jones
Clerc y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

SeneddCYPE@Assembly.Wales

3/11/2015

Annwyl Glerc,

**Craffu cyn Deddfu ar y Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)**

Diolch i chi am y cyfle hwn i gyflwyno ein sylwadau ar y Bil drafft uchod. Gellir crynhoi sylwadau Comisiynydd y Gymraeg a'r materion posibl y gallai Llywodraeth Cymru roi sylw iddynt wrth fynd ati i ddatblygu'r Bil drafft ymhellach fel a ganlyn:

- **Dylai'r Bil drafft fanteisio ar unrhyw gyfleoedd posib i osgoi risg o wahaniaethu yn erbyn siaradwyr Cymraeg sydd ag anghenion dysgu ychwanegol o ganlyniad i ddiffyg darpariaeth gwasanaethau Cymraeg ar eu cyfer. Mae'r Bil drafft yn anelu at wella'r ddarpariaeth gwasanaethau ADY yn gyffredinol, ond nid yw'n cynnwys unrhyw ddarpariaeth benodol ar gyfer gwella gwasanaethau Cymraeg. Nid yw'n eglur sut fydd y Bil drafft yn cyfrannu at gyflawni gofynion ieithyddol y Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.**

- **Er gwaethaf y gydnabyddiaeth yn Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru a'r strategaeth 'Iaith Fyw: Iaith Byw' bod angen gwella gwasanaethau Cymraeg, nid yw'r Bil drafft yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth ar gyfer gwella gwasanaethau Cymraeg yn benodol. Mae darpariaethau yn y Bil drafft ar gyfer gwella gwasanaethau yn gyffredinol ar gyfer unigolion sydd**

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

**ag anghenion dysgu ychwanegol, ond nid oes unrhyw fesurau penodol wedi eu cynnwys er mwyn gwella'r ddarpariaeth Gymraeg yn benodol. Nid yw'n eglur felly sut fydd y Bil drafft yn cyfrannu at gyflawni amcanion y strategaethau hyn.**

- **Awgrymir yn yr asesiad effaith iaith a gyhoeddwyd gyda'r Bil drafft bod y safonau iaith a gyflwynwyd dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar sefydliadau perthnasol i ddarparu gwasanaethau ADY yn Gymraeg. Nid yw'r safonau hynny yn berthnasol i ysgolion. Mae angen eglurder ynghylch y dyletswyddau statudol fydd ar ddarparwyr ADY i ddarparu yn Gymraeg. Os cyfyd unrhyw fylchau yn y dyletswyddau ar sefydliadau perthnasol, dylai'r Bil drafft fynd i'r afael â hynny.**

- **Gan ystyried geiriad cymal 4.1 o Gynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, a'r frawddeg olaf yn benodol, gellir ond casglu bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod y ddarpariaeth gwasanaethau ADY bresennol o'r un safon yn y Gymraeg ac yn Saesneg ac felly nad oes angen gwneud darpariaethau penodol yn y Bil drafft ar gyfer gwella gwasanaethau Cymraeg. Gwerthfawrogwn dderbyn y dystiolaeth sydd gan Llywodraeth Cymru i gefnogi'r canfyddiad hwn.**

- **Arwyddocaol yw'r ffaith nad yw'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn cael eu cynnwys yn y rhestr o'r 'gofynion statudol' eraill sy'n berthnasol i'r sector hwn sydd wedi eu cyhoeddi yn y Cod Ymarfer newydd sy'n cyd-fynd â'r Bil drafft hwn.**

- **Dylid sicrhau bod y wybodaeth ac unrhyw gyngor ar gael yn y Gymraeg i'r grwpiau hyn gan gynnwys unrhyw daflenni, gwefannau, canolfannau cymorth, cyfryngau cymdeithasol ayyb. Dylid hefyd sicrhau fod anghenion ieithyddol yn ofyniad clir yn unrhyw agwedd o'r gwaith hwn a roddir allan i dendr. Yn yr un modd, dylid sicrhau fod digon o gymodwyr ar gael sy'n hyfedr yn y Gymraeg sydd yn gallu ymdrin ag anghydfodau, a bod y Tribiwnlys â'r gallu i gynnig gwasanaeth cyfrwng Cymraeg.**

- **O ystyried pa mor greiddiol yw cyfrwng iaith unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol gall ddysgwyr fod ei angen, mae'n anodd iawn deall pam nad yw nodi cyfrwng iaith addysg dysgwr ymhlith gofynion mandadol y Cynllun Datblygu Unigol sy'n cael eu nodi ym mhennod 10 y Cod Ymarfer newydd.**

**Cyd-destun**

Prif nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith fod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru;
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Mae pwerau newydd i osod a gorfodi safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy is-ddeddfwriaeth ar hyn o bryd. Ar yr un pryd mae'r Comisiynydd yn parhau i arolygu cynlluniau iaith statudol trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Crëwyd swydd y Comisiynydd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Caiff y Comisiynydd ymchwilio i fethiant i weithredu cynllun iaith; ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru ac, yn y dyfodol, i gwynion ynghylch methiant sefydliadau i gydymffurfio â safonau.

Un o amcanion strategol y Comisiynydd yw dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi. Darperir sylwadau ar bolisi yn unol â'r cylch gorchwyl hwn gan weithredu fel eiriolwr annibynnol ar ran siaradwyr Cymraeg yng Nghymru y gallai'r Bil hwn effeithio arnynt. Mae'r ymagwedd hon yn cael ei harddel er mwyn osgoi unrhyw gyfaddawd posibl ar swyddogaethau'r Comisiynydd ym maes rheoleiddio, a phe byddai'r Comisiynydd yn dymuno adolygu'n ffurfiol berfformiad cyrff unigol neu Lywodraeth Cymru yn unol â darpariaethau'r Mesur.

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011**

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn ymgorffori holl hawliau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) i gyfraith ddomestig Cymru. Mae nifer o erthyglau CCUHP yn cyfeirio'n benodol at iaith a mynegi barn.

Mae Erthygl 2 yn gwarchod y plentyn rhag dioddef gwahaniaethu ar sail iaith ac yn rhoi dyletswydd ar bartïon gwladwriaethau i amddiffyn y plentyn rhag pob ffurf ar gamwahaniaethu. Mae Erthyglau 12 a 13 yn rhoi'r hawl i'r plentyn leisio barn yn ddirwystr, gydag Erthygl 30 yn rhoi'r hawl i'r plentyn sy'n perthyn i leiafrif ddefnyddio ei iaith ei hun mewn cymuned ag aelodau eraill o'i grŵp.

**Dylai'r Bil drafft fanteisio ar unrhyw gyfleoedd posib i osgoi risg o wahaniaethu yn erbyn siaradwyr Cymraeg sydd ag anghenion dysgu ychwanegol o ganlyniad i ddiffyg darpariaeth gwasanaethau Cymraeg ar eu cyfer. Mae'r Bil drafft yn anelu at wella'r ddarpariaeth gwasanaethau ADY yn gyffredinol, ond nid yw'n cynnwys unrhyw ddarpariaeth benodol ar gyfer gwella gwasanaethau Cymraeg. Nid yw'n eglur sut fydd y Bil drafft yn cyfrannu at gyflawni gofynion ieithyddol y CCUHP a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.**

**Amcanion Polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg**

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Mae Nod Strategol 1 Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru yn gofyn am wella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnodau addysg cyn statudol a statudol ar gyfer dysgwyr ag ADY. Noda'r Strategaeth bod y Llywodraeth yn (AS1.5):

> *'Disgwyl gwell cynllunio ar gyfer darpariaeth a gwasanaethau addysg cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) fel rhan annatod o ddarpariaeth addysg yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol'.*

Yn ei strategaeth ar gyfer hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ym mywyd bob dydd, 'Iaith fyw: Iaith byw', mae Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r nodau canlynol:

> '*cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith; cynyddu a gwella gwasanaethau Cymraeg i ddinasyddion'*.

**Er gwaethaf y gydnabyddiaeth yn Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru a'r strategaeth 'Iaith Fyw: Iaith Byw' bod angen gwella gwasanaethau Cymraeg, nid yw'r Bil drafft yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth ar gyfer gwella gwasanaethau Cymraeg yn benodol. Mae darpariaethau yn y Bil drafft ar gyfer gwella gwasanaethau yn gyffredinol ar gyfer unigolion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ond nid oes unrhyw fesurau penodol wedi eu cynnwys er mwyn gwella'r ddarpariaeth Gymraeg yn benodol. Nid yw'n eglur felly sut fydd y Bil drafft yn cyfrannu at gyflawni amcanion y strategaethau hyn.**

**Pwysigrwydd y Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg**

Gall nifer o blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol fod yn bobl bregus, ac mae sicrhau fod pobl bregus yn medru cael mynediad at wasanaethau yn yr iaith y maent fwyaf cyfforddus yn ei defnyddio yn rhan anhepgor o ddarparu gwasanaeth da a chynllunio gweithlu effeithiol. Mae angen i'r sefydliadau perthnasol gydnabod mai ond yn y Gymraeg y gall rhai pobl fynegi eu hanghenion yn effeithiol, a bod gan wasanaethau ddyletswydd i gwrdd â'r anghenion hynny.

**Awgrymir yn yr asesiad effaith iaith a gyhoeddwyd gyda'r Bil drafft bod y safonau iaith a gyflwynwyd dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar sefydliadau perthnasol i ddarparu gwasanaethau ADY yn Gymraeg. Nid yw'r safonau hynny yn berthnasol i ysgolion. Mae angen eglurder ynghylch y dyletswyddau statudol fydd ar ddarparwyr ADY i ddarparu yn Gymraeg. Os cyfyd unrhyw fylchau yn y dyletswyddau ar sefydliadau perthnasol, dylai'r Bil drafft fynd i'r afael â hynny.**

**Gofynion Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru**

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Er mwyn cydymffurfio ag ymrwymiadau cyffredinol Adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i diwygiwyd, a gofynion ei Chynllun Iaith Gymraeg, dylai Llywodraeth Cymru dalu sylw arbennig i bob cyfle i wella darpariaeth cyfrwng Cymraeg wrth lunio deddfwriaeth.

'*Gall cyflwyno polisïau, deddfwriaeth, mentrau, gweithdrefnau neu wasanaethau newydd fod yn gyfle i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg....Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hyn i wella lefel y gwasanaeth i siaradwyr Cymraeg, yn enwedig os nad yw'r safon bresennol yn bodloni'r egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal*.' (Adran 4.1 Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru)

Ceir y sylw canlynol ar dudalen 9 o'r ddogfen 'Asesiad Effaith y Bil ar y Gymraeg':

'*Bydd y Bil drafft hwn yn sicrhau y cynllunnir yn well ar gyfer anghenion dysgwyr ag ADY, gan gynnwys y rheini sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, ac y bodlonir eu hanghenion yn well, a hefyd bod darpariaeth i fodloni ystod ehangach o anghenion yn cael ei diogelu'n well.'*

Serch hynny, nid oes cyfeiriadau penodol at anghenion dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg i'w canfod yn y Bil drafft.

Bwriedir y bydd darpariaethau'r Bil drafft, o'u gweithredu, yn gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau ADY ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru, gan gynnwys y rheini sy'n siarad Cymraeg. Ond ni cheir unrhyw ddarpariaeth benodol yn y Bil drafft ar gyfer siaradwyr Cymraeg sydd ag ADY.

**Gan ystyried geiriad cymal 4.1 o Gynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, a'r frawddeg olaf yn benodol, gellir ond casglu bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod y ddarpariaeth gwasanaethau ADY bresennol o'r un safon yn y Gymraeg ac yn Saesneg ac felly nad oes angen gwneud darpariaethau penodol yn y Bil drafft ar gyfer gwella gwasanaethau Cymraeg. Gwerthfawrogwn dderbyn y dystiolaeth sydd gan Llywodraeth Cymru i gefnogi'r canfyddiad hwn.**

### Sylwadau Cyffredinol

Mae'r Asesiad Effaith a gyhoeddwyd ar y cyd â'r Bil drafft yn rhoi'r pwyslais i gyd ar y gofynion sydd ar Awdurdodau Lleol dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 er mwyn gwella'r ddarpariaeth gwasanaethau ADY yn Gymraeg. Dan y Ddeddf honno mae'n ofynnol i Awdurdodau baratoi Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA), ac wrth lunio eu cynlluniau, mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (2013) yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob Awdurdod gynnwys '*datganiad yn nodi [ei] strategaeth o ran sut y bydd yn gwella addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion y mae angen cymorth dysgu ychwanegol arnynt sy'n deillio o unrhyw anhawster y mae y disgybl yn ei gael wrth ddysgu mewn perthynas â disgyblion eraill sydd o'r un oedran nad ydynt yn cael unrhyw*

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

*anhawster wrth ddysgu*.' Ymhellach i hynny, mae Gweinidogion Cymru wedi anfon canllawiau at Awdurdodau Lleol yn ei gwneud hi'n ofynnol iddynt ganolbwyntio ar:

- archwiliadau rheolaidd o ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg
- y fethodoleg ar gyfer asesu'r galw am ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg
- trefniadau ar gyfer cydgysylltu â rhieni fel rhan o'r trefniadau asesu anghenion
- cynlluniau ar gyfer datblygu darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg yn well drwy gydweithredu ag awdurdodau lleol eraill / ar lefel consortiwm

Mewn perthynas â'r pwyntiau bwled uchod, mae'r Asesiad Effaith yn nodi ymhellach (tudalen 10), '*lle bydd yr archwiliadau a/neu'r asesiadau o'r galw yn dangos bylchau, mae disgwyl i awdurdodau lleol ddisgrifio'r camau y maent yn eu cynnig er mwyn eu pontio*.'

**Mae'r frawddeg uchod yn tanlinellu pwysigrwydd casglu tystiolaeth nid yn unig am y galw gan ddysgwyr am wasanaethau cyfrwng Cymraeg, ond hefyd am sgiliau iaith Gymraeg staff fydd yn cyflenwi'r holl ystod o wasanaethau dan adain anghenion dysgu ychwanegol. Rwyf o'r farn bod cofrestru sgiliau darparwyr yr un mor bwysig wrth adnabod ble mae'r bylchau yn y gwasanaeth. Rwyf yn awyddus i wybod pa dystiolaeth sydd gan Lywodraeth Cymru am sgiliau iaith darparwyr ar hyn o bryd.**

Ymddengos, o'r gosodiadau uchod, y bydd yr holl gyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau ADY yn perthyn i'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) ac nid i'r Bil newydd hwn. Mae sawl risg ymhlyg yn hynny:

1. Nid yw'r ymrwymiadau yn y CSGA yn ddigon penodol nac yn fesuradwy. Enghraifft amlwg o hynny yw amwysedd yr ymrwymiad ym mhob CSGA i '[d]datblygu darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg **yn well**'. Ni ddiffinir yr hyn a olygir wrth 'yn well'.

2. Mewn achosion diweddar lle fo rhai awdurdodau lleol wedi methu cyflawni gofynion eu CSGA, , er enghraifft prinder lleoedd cynradd cyfrwng Cymraeg yn ardal Wrecsam a bwriad Cyngor Sir Ddinbych i gau ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 1 a sefydlu ysgol ddwyieithog Categori 2 yn ei lle, ni wnaeth y Gweinidog Addysg a Sgiliau ymyrryd i eithaf ei bwerau er mwyn sicrhau cyflawniad y CSGA. Yn sgil hynny, nid yw'n eglur pa mor barod fyddai'r Gweinidog Addysga Sgiliau i ddefnyddio'i bwerau dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013pe na byddai modd i ddysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol dderbyn gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Coda hynny gwestiynau ynghylch priodoldeb cynllunio'r ddarpariaeth gwasanaethau ADY cyfrwng Cymraeg drwy ddarpariaethau'r ddeddf honno yn hytrach nag o fewn y Bil drafft hwn.

**Arwyddocaol yw'r ffaith nad yw'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn cael eu cynnwys yn y rhestr o'r '*gofynion statudol'* eraill sy'n berthnasol i'r sector hwn sydd wedi eu cyhoeddi yn y Cod Ymarfer newydd sy'n cyd-fynd â'r Bil drafft hwn.**

**Sylwadau penodol**

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Mae'r Bil drafft yn ei gwneud hi'n ofynnol bod Awdurdodau Lleol yn sefydlu trefniadau ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i blant, pobl ifanc ac eraill am ADY a'r system newydd. Mae'r Bil drafft hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnig gwasanaethau eiriolaeth annibynnol i ddysgwyr os ydynt yn ystyried gwneud apêl i'r Tribiwnlys Addysg.

**Dylid sicrhau bod y wybodaeth ac unrhyw gyngor ar gael yn y Gymraeg i'r grwpiau hyn gan gynnwys unrhyw daflenni, gwefannau, canolfannau cymorth, cyfryngau cymdeithasol ayyb. Dylid hefyd sicrhau fod anghenion ieithyddol yn ofyniad clir yn unrhyw agwedd o'r gwaith hwn a roddir allan i dendr. Yn yr un modd, dylid sicrhau fod digon o gymodwyr ar gael sy'n hyfedr yn y Gymraeg sydd yn gallu ymdrin ag anghydfodau, a bod y Tribiwnlys â'r gallu i gynnig gwasanaeth cyfrwng Cymraeg.**

Elfen greiddiol arall o'r Bil drafft hwn yw'r pwyslais a roddir ar y 'Cynllun Datblygu Unigol' statudol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY. Bwriad y cynlluniau hyn fydd disgrifio ADY y plentyn neu'r person ifanc a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen er mwyn diwallu'r anghenion hynny.

**O ystyried pa mor greiddiol yw cyfrwng iaith unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol gall ddysgwyr fod ei angen, mae'n anodd iawn deall pam nad yw nodi cyfrwng iaith addysg dysgwr ymhlith gofynion mandadol y Cynllun Datblygu Unigol sy'n cael eu nodi ym mhennod 10 y Cod Ymarfer newydd.**

**Sywladau clo**

Mae sgôp eang iawn i'r Bil drafft hwn, sydd â'r dyhead i symleiddio a gwella'r system bresennol wrth wraidd ei fodolaeth. Oni bai fod darparu a chynllunio ar gyfer diwallu anghenion dysgwyr o fewn y sector addysg cyfrwng Cymraeg yn cael sylw dyledus yng ngwead y Bil a'r Cod Ymarfer perthynol, fodd bynnag, ni fydd dyheadau creiddiol y Bil hwn yn cael eu gwireddu ar gyfer siaradwyr Cymraeg sydd ag ADY.

Yn gywir,

Meri Huws

**Meri Huws**
Comisiynydd y Gymraeg